# <u>Sgiliau Cymhwyso Rhif Hanfodol</u>

**Yr hyn fyddwch yn ei astudio**

Byddwch yn astudio Lefel 2 City & Guilds mewn Sgiliau Cymhwyso Rhif Hanfodol. Rhai o'r pynciau a gyflwynir yw:

- cyfrifo perimedr
- arwynebedd a chyfaint siapiau rheolaidd
- gweithio gyda chymarebau
- adio, tynnu ffracsiynau a newid ffracsiynol
- cyfrifo ffracsiynau o symiau
- cyfrifo canrannau, newid canran a chanrannau o symiau
- trosi un mesur i un arall - hyd, mas, cynhwysedd ac arian
- defnyddio ac aildrefnu fformiwlâu a roddwyd
- cyfrifo cyfartaleddau a mesurau amrediad
- creu graffiau, siartiau a thablau
- dehongli graffiau, siartiau a thablau
- datrys problemau.

**Sut fyddwch yn astudio**

Mae'r cwrs yn cynnwys 30 awr o gynnwys wedi'i gyflwyno gan diwtor, a disgwylir i chi fod yn hunan astudio am 30 awr arall. Cynhelir pob cwrs ddwywaith yn ystod y flwyddyn academaidd, un yn cychwyn ym mis Tachwedd, a'r llall ym mis Mehefin.

Cynhelir y cwrs fis Tachwedd dros 15 wythnos ac mae'n cynnwys un wers ddwy awr yr wythnos. Cynhelir y cwrs sy'n cychwyn fis Mehefin dros 2½ wythnos ac mae'n cynnwys dau ddiwrnod llawn o astudio'r wythnos.

Bydd pob gwers ac asesiad yn digwydd o bell, drwy Microsoft Teams. Fodd bynnag, yn ddelfrydol byddai'r prawf cadarnhau ar-lein yn cael ei gymryd wyneb yn wyneb ar gampws Canol y Ddinas, Coleg Caerdydd a'r Fro, lle gellir darparu cymorth technegol. Mae cwblhau'r asesiad o bell hefyd yn bosibl i'r rhai sy'n methu teithio i Gaerdydd.

**Sut fyddwch yn cael eich asesu**

Bydd elfen asesiad ysgrifenedig y cymhwyster nid yn unig yn archwilio'ch gallu i wneud cyfrifiadau, ond hefyd sut ydych yn cynllunio i fynd i'r afael â phroblem, dehongli gwybodaeth a roddwyd, a chyflwyno'ch canlyniadau ac argymhellion.

Byddwch hefyd yn cwblhau ail elfen y cymhwyster, sydd yn brawf cadarnhau aml-ddewis ar-lein, sy'n cael ei amseru.

Rhaid pasio'r ddwy elfen yn llwyddiannus er mwyn cyflawni'r cymhwyster llawn.